



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

15/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

28/03/2019

Ymchwil i'r Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

Ymchwil i'r Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

Kerry KilBride a Jessica Phillips, Miller Research



Adroddiad ymchwil llawn: Kilbride, K. & Phillips, J. Miller Research ; (2019).
Ymchwil i'r Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch Caerdydd: Llywodraeth
Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 15/2019.
Ar gael ar: <https://llyw.cymru/ymchwil-ir-cynllun-cynorthwywyr-addysgu-lefel-uwch>

Barnau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai
Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

David Roberts

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

0300 062 5485

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr tablau.....	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad a chefnidir	4
2. Methodoleg	5
3. Y Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch yn ei gyd-destun.....	10
4. Canfyddiadau Allweddol.....	15
5. Casgliadau	38
6. Argymhellion	40
7. Atodiad 1: Canllawiau pwnc	42

Rhestr tablau

Tabl 1: Sampl ymchwil	7
Tabl 2 Grwpiau proffesiynol yn y sampl ymchwil.....	8

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ALNCo	Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
EWC	Cyngor y Gweithlu Addysg
HLTA	Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch
NPQH	Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth
PE	Addysg Gorfforol
PGCE	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
PRU	Uned Cyfeirio Disgyblion
PSHE	Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd
TA	Cynorthwydd Addysgu

1. Cyflwyniad a chefnidir

- 1.1 Ym mis Rhagfyr 2017, penodwyd CM International a Miller Research gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil i'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch. Yn fwy penodol, roedd ar Lywodraeth Cymru eisiau deall y rhwystrau a'r anogaethau i gymryd rhan yn y cynllun, o safbwynt cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr addysgu lefel uwch, prifathrawon, addysgwyr proffesiynol eraill a rhanddeiliaid ehangach.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu'r canfyddiadau o'r ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Gorffennaf 2018.

Amcanion yr ymchwil

- 1.3 Amcanion allweddol y prosiect ymchwil oedd fel a ganlyn:
- deall graddau'r ymwybyddiaeth o'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch
 - darganfod sut mae cyfranogwyr a rhai nad ydynt yn gyfranogwyr wedi clywed am y cynllun
 - deall pam fod cynorthwywyr addysgu yn dewis cymryd rhan yn y cynllun
 - deall pam fod cynorthwywyr addysgu yn dewis peidio â chymryd rhan yn y cynllun
 - deall disgwyliadau cynorthwywyr addysgu o'r cynllun
 - deall canlyniadau ac effeithiau'r cynllun – manteision ac anfanteision – i ysgolion ac i gynorthwywyr addysgu unigol
 - cynnig argymhellion ar sut y gellir gwella'r cynllun.

2. Methodoleg

Trosolwg

- 2.1 Pan gomisiynwyd yr ymchwili, roedd tua 1,800 o gynorthwywyr addysgu wedi bod trwy'r cynllun Cynorthwywyr Addysg Lefel Uwch ac wedi cyrraedd statws Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, gan gynrychioli tua chwech y cant o'r gweithlu cynorthwywyr addysgu yng Nghymru¹. Oherwydd nifer sylweddol y rheini sydd â'r statws, fe wnaeth y tîm ymchwil gynnig yn wreiddiol gyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol ar gyfer yr ymchwil, yn benodol, arolwg ar-lein o gynorthwywyr addysg lefel uwch a phrifathrawon a rhaglen haelaeth o ymchwil ansoddol.
- 2.2 Y bwriad oedd y byddai'r tîm ymchwil yn defnyddio'r data ar gynorthwywyr addysgu sy'n cyrraedd y statws bob blwyddyn, a ddelir gan y consortia rhanbarthol, i gynhyrchu sampl o gyfranogwyr ar gyfer y rhaglen ymchwil ansoddol. I'r gweddill o'r boblogaeth, byddai neges e-bost yn cael ei hanfon i'r ysgol berthnasol, i sylw'r cynorthwydd addysg lefel uwch a'r prifathro a hyperddolen i'r arolwg ar-lein.

Newidiadau i'r fethodoleg arfaethedig

- 2.3 Yn ystod y cyfnod cwmpasu, daeth yn amlwg y byddai arolwg ar-lein yn anymarferol am amryw o resymau, a'r rhain yn gysylltiedig â'i gilydd. Yn gyntaf, nid oedd y consortia rhanbarthol yn gallu rhoi enwau cynorthwywyr addysgu unigol, dim ond yr ysgol lle'r oeddent yn gweithio ar y pryd. Golygai hyn fod yn rhaid i'r ymchwilwyr gysylltu ag ysgolion unigol heb wybod enwau'r unigolion roeddent yn ceisio cysylltu â hwy. Roedd adnabod y bobl gywir yn cymryd amser a galwadau a negeseuon e-bost lluosog at staff addysgu a staff gweinyddol. Mewn rhai achosion, roedd y cynorthwydd addysgu lefel uwch wedi symud i ysgol wahanol ers cwblhau'r cynllun.
- 2.4 Er mai cysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion oedd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer recriwtio'r sampl ansoddol; roedd yn anymarferol cysylltu â channoedd o ysgolion i ddosbarthu'r arolwg i'r person addas. Yn ogystal, daeth yn amlwg yn ystod yr ymchwil nad oes gan gynorthwywyr addysgu yn arferol gyfeiriad e-bost proffesiynol wedi'i ddarparu gan yr awdurdod lleol ac nad oes fawr ddim cyfle os o gwbl i gael at

¹ Mae hyn yn seiliedig ar y 28,000 o staff cymorth addysgu a oedd wedi eu cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar adeg paratoi'r adroddiad.

gyfrifiadur yn ystod oriau gwaith, ac felly na fyddai ganddynt y cyfle i gwblhau'r arolwg.

- 2.5 Yn dilyn hyn, penderfynwyd gyda chytundeb arweinwyr y prosiect o fewn Llywodraeth Cymru fod yr arolwg ar-lein i gael ei ddisodli gan nifer o ysgolion ychwanegol yn cymryd rhan yn yr ymchwil ansoddol.
- 2.6 Felly, roedd dull diwygiedig yr ymchwil yn gyfan gwbl ansoddol ei natur ac yn cynnwys:
- adolygiad o bolisi² ac ymchwil³ perthnasol a dogfennaeth y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch⁴
 - cyfweiliadau cwmpasu ar y ffôn gyda chynrychiolwyr Consortia Rhanbarthol (x8)
 - cyfweiliadau cwmpasu ar y ffôn gyda rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg ac undebau (x6)
 - ymweliadau ag ysgolion sydd wedi cefnogi o leiaf un cynorthwydd addysgu trwy'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch dros y pum mlynedd ddiwethaf (x25)
 - cyfweiliadau ffôn gyda phrifathrawon mewn ysgolion nad ydynt wedi cymryd rhan yn y cynllun (x8)
 - cyfweiliadau ffôn gyda briffwyr ac aseswyr y cynllun (x17).

Gwaith maes

- 2.7 Cafodd yr ysgolion a ddewiswyd ar gyfer eu cynnwys yn yr ymchwil eu tynnu o restrau o ysgolion a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch ers 2008 ac a oedd wedi cael eu gosod at ei gilydd gan y consortia rhanbarthol. Y cyfan roedd y data hwn yn ei gynnwys oedd enw'r ysgol a'r flwyddyn y gwnaeth cynorthwydd addysgu o'r ysgol gyrraedd y statws. Nid oedd y cofnodion

² Llywodraeth Cymru: [Cenhadaeth ein Cenedl](#)

³ Roedd hyn yn cynnwys canfyddiadau allweddol o ymchwil gyda chynorthwywyr addysgu lefel uwch presennol (EAS, Ebrill 2017) ac adolygiad o'r Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2013)

⁴ Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys: Y Safonau Proffesiynol Diwygiedig ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch yng Nghymru 2011; gofynion llythrennedd a rhifedd y Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch; Nodyn Briffio Prifathrawon ar Asesu Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch; Ffurflen Gais Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch; canllawiau ar gyfer Cymedroli Allanol ffeiliau asesu Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch; llawlyfr aseswyr Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch; llawlyfr ymgeiswyr Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch.

yn rhestru unrhyw ysgolion a oedd wedi cefnogi rhywun i gymryd rhan yn y cynllun a oedd wedyn wedi methu â chyrraedd y statws.

- 2.8 Roedd y sampl a ddewiswyd yn cynnwys cyfuniad o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion Arbennig ac Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, ac ysgolion o bob un o ardaloedd y pedwar consortïwm rhanbarthol. Ni fwriadwyd i'r sampl fod yn gynrychioliadol gan nad oedd hyn yn bosibl gyda'r holl newidynnau oedd ynghlwm ac ni allai'r dull o'i ddewis fod yn ddibynnol ychwaith ar y nifer o ymgeiswyr cynorthwywyr addysgu lefel uwch a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun. Er hynny, mae'r sampl wedi ei bwysoli tuag at or-gynrychiolaeth o ysgolion cynradd i adlewyrchu'r nifer uwch o ysgolion cynradd yn gyffredinol a'r nifer uwch o ysgolion cynradd gyda staff yn cymryd rhan yn y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r sampl.

Tabl 1: Sampl ymchwil

	Cynradd (cyfrwng Saesneg)	Cynradd (cyfrwng Cymraeg)	Uwchradd (cyfrwng Saesneg)	Uwchradd (cyfrwng Cymraeg)	Ysgol Arbennig / Uned Cyfeirio Disgyblion	Cyfanswm
Canolbarth y De	2	1	2	0	1 (Ysgol Arbennig)	6
EAS	2	2	2	0	1 (Ysgol Arbennig)	7
ERW	2	2	0	1	1 (Ysgol Arbennig)	6
GwE	1	3	0	1	1 (Uned Cyfeirio Disgyblion)	6
Cyfanswm	7	8	4	2	4	25

2.9 Cynhaliwyd y gwaith maes gyda'r ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn ystod misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf 2018. Treuliodd y tîm ymchwil tua hanner diwrnod ym mhob ysgol yn cyfweld nifer o weithwyr proffesiynol un-i-un neu mewn grwpiau bach. Roedd y cyfweiliadau'n parhau rhwng 30 a 60 munud. Gweler Atodiad 1 am ganllawiau pwnc llawn a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweiliadau. Ym mhob ysgol, cyfwelwyd â chyfuniad o'r rhanddeiliaid canlynol:

- prifathrawon / dirprwy brifathrawon
- rheolwyr llinell cynorthwywyr addysgu / cynorthwywyr addysgu lefel uwch⁵
- athrawon sydd wedi gweithio'n agos gyda chynorthwydd addysgu lefel uwch
- cynorthwywyr addysgu sydd wedi bod trwy'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch (gan gynnwys rhai a oedd yn gyflogedig mewn swydd lefel uwch a rhai nad oeddent)
- cynorthwywyr addysg nad oedd wedi bod trwy'r cynllun.

2.10 Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o sampl yr ymchwil yn ôl rôl ar draws y pedwar Consortiwm Rhanbarthol:

Tabl 2 Grwpiau proffesiynol yn sampl yr ymchwil

Gweithiwr proffesiynol	Cyfanswm nifer y cyfwelwyd â hwy
Prifathro / dirprwy brifathrawon	22
Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol / Cydgysylltydd cynorthwyol Anghenion Dysgu Ychwanegol	6
Cynorthwywyr addysgu gyda statws Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (gan gynnwys rhai a oedd yn gyflogedig mewn swydd Lefel Uwch a rhai nad oeddent)	32
Cynorthwywyr addysgu heb statws cynorthwydd addysgu lefel uwch	25
Cynorthwywyr addysgu ar y cynllun ar hyn o bryd	3
Athrawon	8

⁵ Yn aml, y cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol oedd hwn

- 2.11 Ochr yn ochr â'r ymweliadau ysgol cynhaliodd y tîm gyfweiliadau ffôn gyda 17 o briffwyr ac aseswyr y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch o bob constortiwm rhanbarthol⁶ a gyda phrifathrawon o wyth ysgol nad oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun⁷.
- 2.12 Recordiwyd cyfweiliadau, a/neu cymerwyd nodiadau â llaw, a thrawsgrifiwyd a dadansoddwyd nodiadau/recordiadau wedyn gan ddefnyddio meddalwedd mapio meddwl.

⁶ Yn benodol, pump o ERW, pedwar o GwE, pedwar o Ganolbarth y De a phedwar o EAS.

⁷ Roedd hyn yn cynnwys prifathrawon ysgol gynradd a chydgyssylltwyr Anghenion Addysg Arbennig/dirprwy brifathrawon ysgol uwchradd ym mhob un o ardaloedd y consortia rhanbarthol. Yn achos pob consortiwm rhanbarthol, roedd yr ysgol uwchradd wedi ei lleoli mewn gwahanol ardal awdurdod lleol.

3. Y Cynllun Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch yn ei gyd-destun

Cytundeb Cenedlaethol 2003

- 3.1 Cafodd Cytundeb Cenedlaethol 2003⁸ rhwng y llywodraeth, cyflogwyr ac undebau gweithluoedd ysgolion yng Nghymru a Lloegr ei gynllunio ar gyfer helpu ysgolion i godi safonau a mynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith trwy ddiwygiadau i'r gweithlu. Roedd y cytundeb yn ganlyniad tystiolaeth o 'lwyth gwaith gormodol ac anaddas' a ddaeth i'r amlwg trwy ymchwiliad a wnaed yn 2001, a ddangosodd fod dau draean o amser athrawon yn cael ei dreulio ar weithgareddau heblaw addysgu a bod y proffesiwn addysgu o ganlyniad i hynny wedi dioddef anawsterau recriwtio a chadw⁹.
- 3.2 Ymysg pethau eraill, roedd cytundeb 2003 yn egluro rôl a chyfrifoldebau staff cymorth fel rhan o'r gweithlu ehangach, a oedd yn cynnwys cadarnhad y gallai Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch gyflawni rôl uwch yn yr ystafell ddosbarth trwy gyflenwi dosbarthiadau yn y tymor byr a sicrhau y gall disgyblion gamu ymlaen gyda'u dysgu.

Y defnydd o Gynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch mewn ysgolion yng Nghymru

- 3.3 Mae rôl y cynorthwyydd addysgu lefel uwch wedi ehangu'n sylweddol yn y 15 mlynedd ers cytundeb 2003, er nad oes unrhyw ddisgrifiad swydd safonol yn bod ar gyfer cynorthwyydd addysgu lefel uwch ar lefel genedlaethol na rhanbarthol, ac mae'r ymchwiliad hwn wedi datgelu bod y ffordd y defnyddir y cynorthwyyr lefel uwch mewn ysgolion yn amrywio'n sylweddol. Gall rhai fod yn addysgu dosbarthiadau cyfain yn rheolaidd¹⁰, gall eraill arwain ar feysydd o'r cwricwlwm (e.e.: Y Gymraeg, ABG¹¹ neu AG¹²) neu gyflwyno cymorth llythrennedd a/neu rhifedd wedi'i dargedu i helpu disgyblion o allu is, a gall eraill gyflawni rolau mwy bugeiliol, er enghraifft fel swyddogion presenoldeb, gan gydgyssylltu â rhieni i leihau absenoldeb disgyblion. Nid oes unrhyw reidrwydd ar hyn o bryd i'r rheini sy'n gweithio mewn rolau cynorthwyyr addysgu lefel uwch i fod wedi bod trwy'r cynllun a chaffael y statws,

⁸ *Codi safonau a mynd i'r afael â llwyth gwaith: cytundeb cenedlaethol*, ATL, DfES, GMB, NAHT, NASUWT, NEOST, PAT, SHA, TGWU, UNISON, Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2003

⁹ *Ibid.* p.1

¹⁰ Canfu'r ymchwiliad fod hyn yn digwydd yn bennaf mewn ysgolion cynradd, ac yn aml yn ymwneud â'r dosbarth derbyn.

¹¹ Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd

¹² Addysg Gorfforol

er nad yw'r ymchwil hwn wedi darganfod ond un unigolyn a gyflogir mewn rôl cynorthwydd addysgu lefel uwch nad oedd wedi cyrraedd y statws.

- 3.4 Fe wnaeth yr ymchwil fodd bynnag ddarganfod niferoedd sylweddol o unigolion oedd â statws cynorthwydd addysgu lefel uwch nad oeddent yn cael eu cyflogi mewn swyddi cynorthwywyr lefel uwch.

Y Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

Trosolwg

- 3.5 Mae'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn rhaglen genedlaethol sydd wedi cael ei chynllunio i gydnabod sgiliau a gwybodaeth cynorthwywyr addysgu profiadol a galluog er mwyn cynyddu'r amrediad o gymorth i athrawon ac ysgolion yng Nghymru. Mae'r cynllun yn seiliedig ar set o 36 o safonau proffesiynol¹³ sydd wedi eu categorïddio o dan dri maes:

- priodoleddau proffesiynol,
- gwybodaeth a dealltwriaeth proffesiynol, a
- sgiliau proffesiynol (sy'n cynnwys yr is-gategoriâu cynllunio a disgwyliadau, monitro ac asesu, ac addysgu a dysgu).

Gweithredu'r cynllun

- 3.6 Caiff y cynllun ei farchnata, ei reoli a'i weithredu gan y pedwar consortiwm rhanbarthol ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff y cynllun ei hysbysebu mewn e-fwletinau a anfonir at ysgolion gan y consortia rhanbarthol ac mae'n ymddangos hefyd ar eu gwefannau. Cynhelir sesiynau gwybodaeth – yn aml fel digwyddiadau fin nos – cyn y broses ymgeisio i gynorthwywyr addysgu a phrifathrawon i'w galluogi hwy i wybod mwy am y cynllun a'r meini prawf cymhwys ar gyfer cymryd rhan.
- 3.7 I fod yn gymwys ar gyfer y cynllun, rhaid i gynorthwywyr addysgu gael y canlynol:
- profiad digonol eisoes i ddangos eu bod yn cyrraedd pob un o'r 36 o safonau proffesiynol (ac yn gallu rhoi tystiolaeth o'u cymhwysedd)
 - cymeradwyaeth eu prifathro

¹³ Llywodraeth Cymru: [Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch yng Nghymru 2011](#)

- cymhwyster lefel 2 mewn llythrennedd Gymraeg neu Saesneg ac mewn rhifedd neu fathemateg
- ymwmiad i dreulio tri diwrnod briffio a chymryd rhan mewn asesiad yn yr ysgol.

3.8 Mae llawlyfr cyfranogwyr y cynllun yn nodi'r chwe cham at gyrraedd statws Cynorthwydd Addysgu Lefel uwch, fel y nodir isod:

- Cam Un: Ennill cefnogaeth gan eich ysgol¹⁴
- Cam Dau: Gwneud cais am asesiad cynorthwydd addysgu lefel uwch
- Cam Tri: Cael eich derbyn fel ymgeisydd cynorthwydd addysgu lefel uwch
- Cam Pedwar: Parataoi ar gyfer asesiad
- Cam Pump: Cwblhau'r broses asesu
- Cam Chwech: Derbyn y canlyniad a phenderfynu'r camau nesaf¹⁵

3.9 Mae'r broses o baratoi at gyrraedd statws cynorthwydd addysgu lefel uwch yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddilyn tri diwrnod briffio a gyflwynir gan y consortiwm rhanbarthol perthnasol¹⁶, cwblhau pedair tasg a chasglu tystiolaeth ddogfennol¹⁷ i gefnogi'r tasgau hyn. Mae tasgau un, dau a thri yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd amlinellu a gwerthuso eu profiadau o weithio o fewn gweithgareddau dysgu bob dydd ysgol: tasg un gydag unigolyn, tasg dau gyda grŵp bach (fel arfer dri neu fwy) a thasg tri gyda dosbarth cyfan. Mae tasg pedwar yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr ysgrifennu am bum sefyllfa sy'n rhoi tystiolaeth am safonau na roddwyd sylw iddynt yn y tair tasg gyntaf a/neu safonau y mae'r ymgeisydd o'r farn fod angen eu cryfhau. Gallai'r rhain ymwneud â phrofiadau a chyfrifoldebau proffesiynol ehangach, er enghraifft:

- gweithio gydag athrawon ac oedolion eraill y tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- cynorthwyo mewn ymweliadau addysgol, neu

¹⁴ Rhaid i brifathro neu reolwr llinell ymgeisydd arwyddo'r ffurflen gais a bydd disgwyl iddo ef neu hi gyfarfod â'r asesydd fel rhan o'r ymweliad asesu hanner diwrnod â'r ysgol.

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Ymgeiswyr Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (Cymru), 2015 Ennill Statws Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch, Rhifyn Medi 2015

¹⁶ Diben y dyddiau briffio hyn yw galluogi ymgeiswyr i ddeall y safonau proffesiynol a sut maent yn gysylltiedig â'u gwaith yn yr ysgol; deall y broses asesu a pharatoi tasgau asesu a derbyn adborth ffurfiannol a pharatoi ar gyfer yr ymweliad â'u hysgol gan asesydd.

¹⁷ Caniateir amrywiaeth helaeth o dystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys: cynlluniau gwersi, taflenni asesu, adroddiadau, taflenni cynllunio, astudiaethau achos, tystysgrifau cymwysterau/hyfforddiant, gwaith a gynhyrchwyd gan blant a phobl ifanc, llythyrau/cardiau cymeradwyaeth, nodiadau arsylwi, agenda/cofnodion/nodiadau cyfarfodydd, adnoddau ystafell ddosbarth, archwiliadau adnoddau, tystiolaeth ffotograffig o wersi, ac arsylwadau gwersi gan staff uwch.

- gymryd rhan mewn cyfarfodydd a gweithgorau proffesiynol.

- 3.10 Mae pwyslais cryf ar asesu ffurfiannol yn y cynllun, a disgwylir i ymgeiswyr ddod â'u hymatebion drafft i dasgau un, dau a thri a'u hymateb drafft i o leiaf un o sefyllfaoedd tasg pedwar i'r sesiynau briffio terfynol, ar gyfer 'canllawiau cyffredinol' ar safonau penodol a thasgau gan y briffiwr. Mae'r llawlyfr ymgeiswyr yn nodi: 'nid yw briffwyr yn gallu darparu adborth manwl ar dasgau unigol. Rhaid i'ch asesiad fod yn seiliedig ar eich gwaith eich hyn a byddai adborth unigol, manwl gan briffiwr yn amharu ar y broses. Bydd y canllawiau a dderbyniwch felly yn cael eu fframio fel materion a chwestiynau eang, yn hytrach na chyfarwyddiadau uniongyrchol.' ¹⁸
- 3.11 Rhaid i'r ymweliad asesu ddigwydd o fewn 12 wythnos o'r diwrnod briffio terfynol. Yn ystod yr ymweliad hanner diwrnod â'r ysgol, bydd yr asesydd yn cyfarfod yr ymgeisydd, eu prifathro neu gynrychiolydd dirprwyedig ac un neu ddau aelod o staff addysgu¹⁹ y mae'r ymgeisydd yn gweithio agosaf â hwy ac yn craffu ar ffeil dystiolaeth yr ymgeisydd. Nid yw'r ymweliad yn cynnwys unrhyw arsylwadau ystafell ddosbarth.
- 3.12 Yn dilyn yr asesiad yn yr ysgol, mae proses o gymedroli'r dystiolaeth, yn fewnol (o fewn pob consortiwm rhanbarthol) ac yn allanol (ar draws yr holl gonsortia rhanbarthol, o dan oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru). Caiff ffeiliau dystiolaeth tua 50 y cant o'r holl ymgeiswyr a'r holl rai sy'n ymylol neu sy'n methu â chyrraedd y safonau proffesiynol eu cymryd i'w cymedroli'n allanol gan asesydd o wahanol gonsortiw m rhanbarthol. Roedd pawb o'r rhanddeiliaid a oedd â gwybodaeth o'r asesiad cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn ei chanmol fel proses dirlwyr: 'mae'n broses drylwyr iawn ac oherwydd hyn mae'n uchel ei pharch.' (Cynrychiolydd consortiwm rhanbarthol)
- 3.13 Caiff y cynllun ei gyllido gan Lywodraeth Cymru ar gyfradd o tua £1,000 yr ymgeisydd. Mae hyn yn talu cost amser y briffiwr a'r asesydd, staff cyflenwi ac amser cyflenwi ar gyfer y cynorthwywyr addysgu, yn ystod y sesiynau briffio.
- 3.14 Hyd yn ddiweddar, roedd y cynllun yn cael ei redeg unwaith y flwyddyn, gyda Llywodraeth Cymru'n gosod dyddiadau cau i Gymru gyfan ar gyfer asesu a chymedroli. Fel rhan o'r gyriant tuag at gynnydd cyffredinol yn y nifer o

¹⁸ Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Ymgeiswyr Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (Cymru), 2015 Ennill Statws Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch, Rhifyn Medi 2015, t.13

¹⁹ Rhaid i o leiaf un fod yn athro cymwysedig.

gynorthwyyr addysgu sy'n cyrraedd statws cynorthwyydd addysgu lefel uwch, mae'r cynllun wedi cael ei redeg ddwywaith y flwyddyn ers mis Medi 2017. Mewn ardaloedd rhai o'r consortia rhanbarthol, roedd cynrychiolwyr yn sylwi ar gynnydd sylweddol yn y niferoedd yn ymgeisio am y cynllun, er mai cyfyngedig oedd y lefelau o ymwybyddiaeth o'r symudiad hwn at raglen ddwywaith y flwyddyn a ganfuwyd yn yr ysgolion a gynhwyswyd yn y gwaith maes.

- 3.15 Yn ogystal ag ehangu'r cynllun cynorthwyyr addysgu lefel uwch, mae'r consortia rhanbarthol wedi datblygu'r Llwybr Dysgu ar gyfer Cynorthwyyr Addysgu, y bwriedir iddo helpu cynorthwyyr addysgu i adnabod a chael at raglen ddatblygu sy'n addas i'w hangen presennol. Mae rhaglen genedlaethol o ddysgu proffesiynol wedi cael ei datblygu ar gyfer cynorthwyyr addysgu ledled Cymru ac fe'i cynigir gan bob un o'r consortia rhanbarthol.

4. Canfyddiadau Allweddol

Y Sail Resymegol Ymddangosiadol y tu ôl i'r Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

- 4.1 Ceisiodd y gwaith maes archwilio beth oedd rhanddeiliaid yn ei ystyried fel sail resymegol y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch, ei fudd a'r cyfiawnhad drostro.
- 4.2 Yn gyntaf oll, roedd yn cael ei weld fel mecanwaith i gynorthwywyr addysgu gamu ymlaen mewn gyrfa. Hwn oedd yn cael ei ystyried fel y sail resymegol sylfaenol ymysg pawb o'r rhanddeiliaid, waeth beth oedd eu rôl na hyd eu profiad. Roedd rhai – athrawon yn fwy cyffredin na chynorthwywyr addysgu lefel uwch – hefyd yn cyfeirio at y buddion cysylltiedig sy'n dod gyda datblygiad proffesiynol, o safbwynt cynyddu hyder mewn cynorthwywyr addysgu a chodi eu statws yn yr ysgol:
- ‘mae wedi rhoi mwy o hyder [i gynorthwywyr addysgu lefel uwch] wrth ymdrin â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n dod i'r ysgol.’ (Athro dosbarth, ysgol gynradd)
- ‘mae'n rhoi cydnabyddiaeth i gynorthwywyr addysgu arbenigol neu brofiadol am yr hyn maen nhw'n ei wneud.’ (cynorthwydd addysgu â statws lefel uwch mewn ysgol Arbennig)
- Roedd eraill yn gwneud y pwynt nad yw'r cynllun yn helpu arfogi ymgeiswyr â sgiliau newydd: ‘mae'n ymwneud ag achredu sgiliau sydd ganddyn nhw eisoes.’ (Athro dosbarth, ysgol gynradd)
- 4.3 Yn ail, y farn oedd ei fod yn cynyddu capasiti yn yr ysgol trwy alluogi cynorthwywyr addysgu i gymryd dosbarthiadau'n gyfreithlon ac yn annibynnol ar yr athro dosbarth rheolaidd (er enghraifft, pan mae'r athro'n Cynllunio, Paratoi ac Asesu neu ar hyfforddiant neu'n sâl) gan fod y cynorthwydd addysgu wedi profi eu bod yn cyrraedd safonau proffesiynol: ‘mae'n sicrhau rhieni bod [y cynorthwydd addysgu lefel uwch] yn gymwys ar gyfer y gwaith o gymryd y dosbarth.’ (Prifathro, ysgol gynradd)
- 4.4 Roedd prifathrawon a staff addysgu uwch yn tueddu i gyfeirio at y sail resymegol hon yn fwy na chynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr lefel uwch ac roedd llawer

ohonynt yn awyddus i egluro mai mater eilaidd iawn oedd hyn, ar ôl y prif ddiben o roi cyfle am gamu ymlaen.

- 4.5 Teimlai rhai prif athrawon a staff addysgu uwch fod y cynllun â'r nod o godi safonau proffesiynol yng ngweithlu ehangach yr ysgol.
- 4.6 Roedd nifer bach o gynorthwyyr addysgu lefel uwch yn awgrymu bod y cynllun yn creu rôl 'hanner ffordd' rhwng cynorthwyydd addysgu ac athro, ac mewn un neu ddau o achosion, roedd cynorthwyyr addysgu wedi cyrraedd statws lefel uwch wrth astudio hefyd am radd ran-amser, gyda'r bwriad o gyrraedd statws athro cymwysedig. Er hynny, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y cynllun Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch yn glir fod eu rôl yn wahanol i un athro cymwysedig: 'mae gwaith cynorthwyyr addysgu lefel uwch yn ategu gwaith athrawon; nid yw'r rolau'n rhai y gellir eu cyfnewid.'²⁰

Marchnata a chyfathrebu

- 4.7 Mae'r cyfrifoldeb dros farchnata a lledaenu gwybodaeth am y cynllun cynorthwyyr addysgu lefel uwch a recriwtio ymgeiswyr ar gyfer y cynllun yn gorwedd gyda'r consortia rhanbarthol er bod rhai rhanddeiliaid o dan yr argraff mai cylch gwaith Llywodraeth Cymru oedd hyn. Canfuwyd bod y dulliau o farchnata'r cynllun a chyfathrebu gydag ysgolion yn amrywio rhwng consortia ac roedd hyn yn cael ei gydnabod yn helaeth fel maes ac iddo le i wella, gan ymarferwyr mewn ysgolion a staff consortia rhanbarthol. Fel y nodwyd uchod mae pob un o'r consortia rhanbarthol yn hysbysebu'r cynllun ar eu gwefan ac yn e-bostio ysgolion am y sesiynau gwybodaeth o leiaf yn flynyddol.
- 4.8 Y farn oedd fodd bynnag nad oedd hyn yn ffurf effeithiol o farchnata, gan fod yr e-bost yn arferol yn mynd at y prifathro a/neu ysgrifenyddes yr ysgol ac efallai nad yw felly'n cael ei drosglwyddo i ddarpar ymgeiswyr: 'Pe baem yn cael e-bost uniongyrchol gan y consortiwm gallem drafod y posibilrwydd o fynychu gyda'n rheolwr llinell. Byddai llawer mwy o gynorthwyyr addysgu wedyn yn cymryd rhan ac yn caffael y statws.' (cynorthwyydd addysgu lefel uwch, ysgol uwchradd)

²⁰ Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Ymgeiswyr Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch (Cymru), 2015 Ennill Statws Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch, Rhifyn Medi 2015, t.3

- 4.9 Rhan o'r broblem yw nad oes gan gynorthwywyr addysgu gyfeiriad e-bost proffesiynol yn arferol, gan ei gwneud yn anodd i'r consortia rhanbarthol gysylltu â hwy yn uniongyrchol. Roedd rhai enghreifftiau prin (dwy) lle dywedodd prifathrawon eu bod wedi cadw manylion am y cynllun yn fwriadol oddi wrth gynorthwywyr addysgu, ar y sail y byddai'n amhriodol codi gobeithion yn ofer os nad oedd swyddi cynorthwywyr lefel uwch ar gael. Yn y ddau achos, roedd y prifathro eisoes wedi cefnogi o leiaf un cynorthwydd addysgu drwy'r cynllun ac roedd yn sylweddoli gwaith oedd yn gysylltiedig ag ef: 'os ydyn nhw'n gwneud y cwrs [sic] ac yn gwneud yr holl waith ychwanegol, mae angen fod swydd ar ei ddiwedd.' (Prifathro, ysgol gynradd)
- 4.10 Yn ogystal, mae cyfyngiadau²¹ ar rai consortia rhanbarthol ynghylch y graddau y gallant anfon negeseuon e-bost at ysgolion, ac felly mae manylion y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn tueddu i gael ei gynnwys mewn e-fwletin sy'n cynnwys llawer o wybodaeth arall, sy'n golygu y gall manylion y cynllun fynd 'ar goll' ac nad yw'n cael ei gyfleu i gynorthwywyr addysgu neu nad yw prifathrawon yn gweithredu arno.
- 4.11 Roedd rhywfaint o bryderon gan amryw o brifathrawon a chydgyssylltwyr anghenion dysgu ychwanegol a oedd yn feirniadol o'r diffyg cyfathrebu ymddangosiadol ynglŷn â'r cynllun: 'Dw i ddim wedi cael unrhyw wybodaeth am gynorthwywyr addysgu lefel uwch gan y consortiwm ers tair blynedd, dw i wedi cwyno, ac mae cynrychiolydd yn dod i'r ysgol i siarad gyda'n holl gynorthwywyr addysgu cyn diwedd y tymor.' (Prifathro, ysgol gynradd)
- 4.12 Mae marchnata a lledaenu gwybodaeth am y cynllun yn cael ei weld fel blaenoriaeth allweddol gan bawb o'r rhanddeiliaid, yn enwedig o ran adnabod ffyrdd mwy effeithiol o gyrraedd cynorthwywyr addysgu yn uniongyrchol. Roedd cynrychiolwyr consortia rhanbarthol yn cydnabod y gellir gwella'r dull presennol ond teimlent fod angen i Lywodraeth Cymru chwarae mwy o ran wrth hyrwyddo'r cynllun yn genedlaethol, oherwydd diffyg capasiti o fewn y consortia rhanbarthol. Roedd y mecanweithiau cyfathrebu yn cynnwys datblygu taflenni am y cynllun i'w dosbarthu

²¹ Mewn un consortiwm rhanbarthol, dywedodd cynrychiolwyr fod ysgolion wedi gofyn am beidio â derbyn dim ond lefel a gytunwyd o ohebiaeth e-bost (trwy e-fwletinau) gan y consortiwm ac am iddynt beidio ag anfon negeseuon e-bost ad-hoc yn ymwneud â gwahanol bynciau.

mewn ystafelloedd athrawon, datblygu eiriolwyr cynorthwywyr addysgu lefel uwch ym mhob awdurdod lleol a chynnal sioeau teithiol i brifathrawon.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Graddau'r ymwybyddiaeth o'r cynllun

- 4.13 Roedd y mwyafrif o ymarferwyr ysgolion y cyfwelwyd â hwy yn gwybod am y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch. Roedd hyn i'w ddisgwyl gan fod yr holl ysgolion yr ymwelwyd â hwy wedi cefnogi o leiaf un cynorthwydd addysgu trwy'r cynllun. Roedd nifer bach o gynorthwywyr addysgu nad oedd yn dal y statws lefel uwch heb fod yn gwybod am y cynllun ac a oedd o dan yr argraff fod eu cydweithiwr wedi cael ei ddyrchafu i swydd cynorthwydd lefel uwch ar sail haeddiant a gallu yn unig.
- 4.14 Ymysg prifathrawon a chydgyssylltwyr anghenion dysgu ychwanegol nad oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun, roedd pawb ond un yn gwybod am y cynllun, gan awgrymu nad yw diffyg ymwybyddiaeth yn rhwstr i ymgeisio. Roeddent yn crybwyll rhesymau eraill dros beidio â chefnogi cynorthwywyr addysgu drwy'r cynllun neu beidio â chefnogi'r cynllun, a drafodir mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn.
- 4.15 Er gwaethaf yr ymwybyddiaeth helaeth o'r cynllun a adroddwyd gan randdeiliaid, roedd camddealltwriaeth gyffredinol ynghylch beth mae'n ei olygu a beth mae ymgeiswyr yn ei ennill trwy gymryd rhan. Roedd y mwyafrif o staff ysgolion a hyd yn oed rai briffwyr ac aseswyr yn cyfeirio ato fel 'cymhwyster' neu fel proses o ddod yn gynorthwydd addysgu lefel uwch 'cymwysedig'. Mae hyn yn awgrymu diffyg dealltwriaeth bod y cynllun yn broses ffurfiol o asesu ymgeiswyr yn erbyn safonau proffesiynol cynorthwywyr addysgu lefel uwch ac ennill 'statws' ac nid cymhwyster achrededig.
- 4.16 Mewn rhai achosion, roedd ymarferwyr a oedd wedi bod trwy'r cynllun yn mynegi siom ynghylch diffyg unrhyw elfen a addysgir, gan awgrymu diffyg dealltwriaeth ar y cychwyn ynghylch yr hyn roedd y cynllun yn ei olygu: 'ymarferiad papur oedd y cynllun i raddau helaeth iawn a oedd yn gwneud ichi sylweddoli'r lefelau sgiliau roedd gennych chi eisoes, ond nid oedd yn gwneud dim i ddatblygu'r sgiliau hynny nac ychwanegu atynt.' (cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol gynradd)

- 4.17 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gellid gwneud mwy i wella dealltwriaeth o'r hyn mae'r cynllun yn ei olygu a'r hyn mae ymgeiswyr yn ei gael wrth gymryd rhan ynddo.

Ffynonellau o wybodaeth

- 4.18 Dywedodd y mwyafrif o gynorthwywyr addysgu iddynt ddod i wybod am y cynllun gan eu prifathro a oedd naill ai wedi trafod y cynllun gyda'r holl gynorthwywyr addysgu ac wedi awgrymu eu bod yn cymryd rhan neu wedi mynd at ymgeiswyr addas yn unigol. Roedd y mwyafrif o gynorthwywyr addysgu yn ei weld fel arwydd o glod eu bod wedi cael eu dewis i gymryd rhan yn y cynllun cynorthwywyr lefel uwch a theimlai rhai na fyddai ganddynt yr hunan-gred i fod wedi ystyried y cynllun oni bai bod y prifathro wedi'i awgrymu: 'Ro'n i'n teimlo fy hun yn cael fy ngwerthfawrogi pan ddywedodd y prifathro blaenorol y gallwn i ei wneud ... fyddwn i ddim wedi'i wneud heb ei gefnogaeth a'i anogaeth.' (cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol gynradd)
- 4.19 Mewn lleiafrif o achosion, roedd cynorthwywyr addysgu wedi mynd ati i ymchwilio'r cynllun eu hunain, er enghraifft wrth edrych ar wefan y consortiwm rhanbarthol neu ofyn i'r rheolwr llinell am fwy o wybodaeth amdano. Roedd hyn yn aml ar ôl dod i wybod am gydweithwyr yn mynd drwy'r cynllun. Yn aml, fodd bynnag, nid oedd gan gynorthwywyr addysgu fawr o adnabyddiaeth o wefan eu consortiwm rhanbarthol, er bod ymwybyddiaeth ychydig yn uwch mewn ysgolion uwchradd.
- 4.20 Hyd yn oed lle'r oedd cynorthwywyr addysgu'n sylweddoli bod gwybodaeth am y cynllun ar gael ar-lein, gwnaed y pwynt fod cynorthwywyr addysgu yn aml heb gyfrifiadur ar gael iddynt yn rheolaidd yn yr ysgol. Nid oedd neb o'r cynorthwywyr addysgu (gan gynnwys y rheini a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun ac ennill statws lefel uwch) y gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil hwn wedi derbyn e-bost am y cynllun yn uniongyrchol oddi wrth eu consortiwm rhanbarthol.
- 4.21 Dangosodd yr ymchwil fod y mwyafrif o brifathrawon a oedd yn gwybod am y cynllun wedi clywed amdano trwy negeseuon e-bost gan y consortiwm rhanbarthol perthnasol. Y negeseuon e-bost hefyd oedd y ffynonellau o wybodaeth ar pa bryd roedd y cynllun yn cael ei redeg. Roedd nifer o brifathrawon nad oedd yn gallu cofio'n union sut y daethant i wybod am y cynllun yn wreiddiol, gan ddyfalu eu bod

yn 'debygol' o fod wedi clywed amdano gan eu consortiwm rhanbarthol, neu ar lafar gan gydweithwyr.

- 4.22 Roedd un prifathro wedi dod i wybod am y cynllun wrth baratoi ar gyfer Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol Prifathrawiaeth pan roddwyd sylw i arweinyddiaeth a helpu staff i ddatblygu.

Rheoli a gweithredu'r cynllun

- 4.23 Fel y disgrifiwyd uchod, caiff y cynllun cynorthwyyr addysgu lefel uwch ei weithredu gan y consortia rhanbarthol ar ran Llywodraeth Cymru. Dangosodd yr ymchwil mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth oedd am sut y rheolir y cynllun ac roedd canfyddiad helaeth mai'r consortia oedd yn gyfan gwbl gyfrifol am redeg y cynllun a chyfyngedig oedd unrhyw ymwybyddiaeth mai Llywodraeth Cymru sy'n cyllido'r cynllun. Roedd y rheini a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun yn tueddu i ganolbwyntio ar y dyddiau briffio a'r ymweliad ysgol gan yr asesydd pan ofynnwyd am eu dealltwriaeth o drefniadau gweithredu'r cynllun. Roedd llawer o athrawon a phrifathrawon yn dweud yn agored nad oedd ganddynt unrhyw syniad o'r trefniadau gweithredu.
- 4.24 Roedd llawer o brifathrawon o dan yr argraff mai eu hawdurdod lleol neu (i raddau llai) gonsortiwm rhanbarthol oedd yn cyllido'r cynllun. Nid oedd neb o'r staff ysgol yn cyfeirio at ran Llywodraeth Cymru wrth reoli a gweithredu'r cynllun.
- 4.25 Roedd barn gyffredinol fod y dyddiau briffio yn addysgiadol ac yn cael eu rhedeg yn dda, gan roi cyfle i ymgeiswyr gymharu eu portffolios a thrafod unrhyw broblemau gyda chyfranogwyr eraill a'r briffiwr. Roedd amryw o gyfranogwyr yn sôn am fod wedi ffurfio cyfeillgarwch parhaol gyda'r rheini a oedd ar y cynllun gyda nhw ac yn teimlo bod hyn wedi helpu i gyfoethogi eu profiad o'r broses.
- 4.26 Roedd iaith cyfrwng y sesiynau briffio yn broblem mewn mwy nag un rhanbarth. Roedd ymgeiswyr yn gallu cael y pecyn briffio yn y Gymraeg neu'r Saesneg; fodd bynnag, adroddwyd bod y sesiynau eu hunain, gan gynnwys y cyflwyniadau PowerPoint, yr holl gyfathrebu llafar a deunyddiau eraill yn tueddu i fod mewn un iaith, yn unol â dewis iaith mwyafrif y grŵp. Dywedodd un neu ddau gynorthwyydd addysgu lefel uwch a oedd yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg iddynt ddewis cwblhau eu portffolio o dystiolaeth yn y Gymraeg, ond bod eu dyddiau briffio

i gyd wedi bod yn y Saesneg. Roedd hyn yn creu anawsterau o ran cymhwyso'r dysgu o'r sesiynau i'w portffolio, gofyn am ganllawiau gan y briffiwr (nad oedd yn gallu siarad Cymraeg) a rhannu profiadau gydag ymgeiswyr eraill.

'dim ond dau ohonon ni oedd yn gwneud y portffolio yn Gymraeg ac roedd yr holl addysgu [sic] yn Saesneg ... roedd y rheini oedd yn ei wneud [y portffolio] yn y Saesneg yn debygol o fod wedi cael mwy o gymorth.' (cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol gynradd)

- 4.27 Ar y llaw arall, roedd un cynorthwydd addysgu lefel uwch a oedd wedi mynychu sesiynau briffio a oedd yn gyfan gwbl yn y Gymraeg wedi nodi y byddai wedi bod yn 'anodd' i unrhyw un nad oedd yn siarad Cymraeg.
- 4.28 Roedd mynediad i'r sesiynau briffio yn anhawster i rai o safbwynt y pellteroedd roedd angen eu teithio i fynd iddynt, yn enwedig yn ardaloedd y consortia rhanbarthol a oedd yn fawr yn ddaearyddol. Mewn rhai achosion, soniodd ymgeiswyr am deithio hyd at ddwyawr i fynd i sesiwn. Dewisodd un cynorthwydd addysgu lefel uwch aros dros nos, ar ei chost eu hun.
- 4.29 Dywedodd nifer bach o gynorthwywyr addysgu nad oedd wedi bod trwy'r cynllun fod yr angen i deithio i'r sesiynau briffio yn golygu na fyddai'n bosibl iddynt oherwydd nad oeddent yn gyrru. Teimlai eraill na fyddai sesiynau fin nos yn gydnaws â chyfrifoldebau teuluol ac y byddent felly'n eu rhwystro rhag cymryd rhan yn y cynllun: 'Dw i'n gweithio [fel cynorthwydd addysgu] yn ysgol fy mhlant ac rydym yn dod adref gyda'n gilydd ... mae fy ngŵr yn gweithio llawer oddi cartref, felly allwn i ddim eu gadael i fynd i gyrsiau [sic] gyda'r nosau.' (cynorthwydd addysgu, ysgol gynradd)
- 4.30 Dangosodd yr ymchwiler yw faint o anghysondeb yn y ffordd roedd ysgolion yn cyflenwi ar gyfer cynorthwywyr addysgu a oedd yn mynd i'r dyddiau briffio. Roedd rhai prifathrawon yn honni bod yr ysgol wedi gorfod talu'r gost o'u cyllidebau eu hunain am waith cyflenwi ar gyfer y cynorthwydd addysgu ar y dyddiau hyn, tra dywedodd eraill fod y cyllid wedi dod o'r consortiwm rhanbarthol.
- 4.31 Yn ogystal, mewn un rhanbarth, dywedodd dau brifathro – ill dau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg – am brinder cynorthwywyr addysgu a oedd ar gael i gyflenwi, a oedd yn golygu bod yr ysgol yn gorfod cyflenwi am absenoldeb y cynorthwydd addysgu gan ddefnyddio staff craidd: 'er bod cyllid ar gyfer cyflenwi, nid oedd neb i

wneud hynny ... gallwch gael athrawon cyflenwi bob amser, ond nid cynorthwywyr addysgu cyflenwi.' (Prifathro, ysgol gynradd)

- 4.32 Roedd rhai cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn disgrifio bod yn y sefyllfa letchwith o orfod dibynnu ar ewyllys da cydweithwyr eraill i gyflenwi eu habsenoldeb neu'n dweud na fu cyflenwi yn ystod eu habsenoldeb, gan arwain at gynyddu eu llwyth gwaith ar ôl dychwelyd.
- 4.33 Roedd barnau cymysg am y broses o gwblhau'r portffolio. Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo boddhad o gymharu eu harferion o ddydd i ddydd â'r safonau proffesiynol gan fod hyn yn peri iddynt ddeall eu cyfraniad i'w hysgol: 'Doeddw'n i'n wir ddim wedi sylweddoli faint dw i'n ei wneud tan imi orfod ei ddisgrifio ar gyfer y portffolio.' (Cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol uwchradd)
- 4.34 Roedd y gwaith sy'n ymwneud â pharatoi'r portffolio yn rhwstr i rai cyfranogwyr o safbwynt yr amser roedd ei angen. Roedd rhai yn cael amser yn ystod oriau ysgol i weithio ar y portffolio, ond nid oedd hyn yn wir i bawb o bell ffordd; ym mhob achos, roedd o leiaf rywfaent o'r gwaith yn gorfod cael ei wneud gyda'r nosau ac ar benwythnosau, rhywbeth a oedd yn anodd, yn enwedig i gyfranogwyr oedd â phlant.
- 4.35 Roedd rhai cyfranogwyr yn haeru na roddwyd canllawiau digonol iddynt ar raddau'r manylder oedd yn ofynnol ar gyfer y portffolio. Haerodd nifer bach eu bod wedi treulio llawer o oriau yn cynhyrchu portffolio hirfaith, dim ond i gael asesydd yn dweud wrthynt nad oedd angen iddynt fod wedi ysgrifennu cymaint.
- 4.36 Roedd barnau cymysg ar raddfeydd amser cyffredinol y cynllun, o'r sesiwn briffio cyntaf i'r ymweliad asesu yn yr ysgol. Roedd amryw yn cymharu'r cynllun â Thystysgrif Cynorthwydd Addysgu Lefel ²² a'r Diploma Cynorthwydd Addysgu Lefel ²³, ac yn teimlo y byddent wedi croesawu mwy o amser i gwblhau'r portffolio oherwydd y graddau o waith sy'n gysylltiedig â'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch. Teimlai eraill fod y ffrâm amser yn addas ac yn helpu i gynnal momentwm heb roi pwysau gormodol arnynt.
- 4.37 Roedd cynrychiolwyr consortia rhanbarthol, aseswyr a briffwyr ac ymarferwyr ysgol a oedd â rhywfaint o wybodaeth ar sut mae'r cynllun yn gweithio yn ei ddisgrifio fel

²² Mae hyn yn golygu cyfartaledd o 160 awr o waith ac mae'n cynnwys 12 mis o gefnogaeth tiwtor.

²³ Mae hyn yn golygu cyfartaledd o 200 awr o waith ac mae'n cynnwys 12 mis o gefnogaeth tiwtor.

un cadarn a thrylwyr. Er nad oedd gan y mwyafrif o brifathrawon a staff addysgu uwch fawr ddim gwybodaeth am sut y câi'r cynllun ei reoli, awgrymodd rhai ohonynt fod y ffaith mai dim ond cynorthwywyr addysgu o ansawdd uchel sy'n cyrraedd y statws yn arwydd o'i drylwyrredd: 'Dw i'n gwybod na wnân nhw gymryd unrhyw un ... rhaid i'r cynorthwydd addysgu gael y sgiliau a gallu profi hynny.' (Prifathro, ysgol Arbennig)

- 4.38 Roedd y rheini a oedd yn gweithio i'r consortia rhanbarthol ac a oedd yn gwybod sut y câi'r cynllun ei reoli yn cyfeirio at y prosesau cymedroli a ddisgrifir yn adran 3 uchod fel tystiolaeth o gadernid y cynllun. Er hynny, roedd rhai agweddau o'r cynllun y teimlai rhanddeiliaid y gellid eu haddasu.
- 4.39 Awgrymwyd y gellid asesu rhywfaint o'r dystiolaeth, yn enwedig sgiliau ymgeisydd wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant, yn fwy cywir trwy arsylwad ystafell ddosbarth fel rhan o'r diwrnod asesu, yn lle dangos tystiolaeth ohono drwy'r portffolio. Roedd yn yn neilltuol o berthnasol i safon 33,²⁴ lle mae diffyg eglurder i'r diffiniad o 'ddosbarth cyfan'²⁵ ac sydd wedi arwain at ddehongli anghyson. Mewn rhai ysgolion, roedd cynorthwywyr addysgu'n rhoi tystiolaeth o'r safon trwy gyfeirio eu bod wedi gweithio gyda grwpiau cymharol fach, er enghraifft grwpiau darllen. Mewn achosion eraill, roedd cynorthwywyr addysgu wedi tystiolaethu profiad o weithio gyda dosbarth cyfan o hyd at 30 o ddisgyblion.
- 4.40 Mewn un achos, roedd darpar ymgeisydd wedi methu ag ennill y statws oherwydd nad oedd hi wedi cyrraedd safon 33, ar ôl derbyn yr hyn roedd hi'n ei ystyried fel canllawiau anghyson gan y rheini a oedd yn rhedeg y cynllun. Roedd y cynorthwydd addysgu wedi cael ei sicrhau wrth wneud eu cais, yn y dyddiau briffio ac wrth ddatblygu eu portffolio fod y grŵp bach roeddent yn ei redeg unwaith yr wythnos yn ddigonol ar gyfer Safon 33; fodd bynnag, pan ddaeth yr asesydd i'r ysgol, dywedwyd wrth y cynorthwydd addysgu nad oedd hi wedi cyrraedd y safon.

²⁴ Gweithio ymlaen llaw wrth weithio gyda dosbarthiadau cyfain heb bresenoldeb yr athro a neilltuwyd

²⁵ Dywed canllawiau'r cynllun: 'ni ddiffinir "dosbarth cyfan" gan nifer union o ddisgyblion. Bydd maint dosbarth cyfan yn dibynnu ar y cyd-destun lle'r ydych yn gweithio; ee: math o ysgol, maint a chyfnod. Caiff maint a ffurf dosbarth cyfan ei ddiffinio gan yr hyn a fyddai'n cael ei amserlennu'n arferol ar gyfer y wers honno.' Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Ymgeiswyr Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (Cymru), Ennill Statws Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch, Rhifyn Medi 2015, t. 9

Ysgogwyr cymryd rhan yn y Cynllun Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch

Ysgogwyr i gynorthwyyr addysgu

- 4.41 Y prif gymhelliad i gynorthwyyr addysgu gymryd rhan yn y cynllun oedd uchelgais o ran datblygiad personol a gyrfa. Roedd hyn yn deillio'n aml o gael anogaeth unigol gan y prifathro neu reolwr llinell: 'mae'n beth braf pan mae rhywun yn dod atoch chi a dweud "fe allwch chi wneud hyn" ... fe wnaeth imi fod eisiau profi y gallwn ei wneud.' (Cynorthwyydd addysgu lefel uwch, ysgol uwchradd)
- 4.42 Yn gysylltiedig â hyn, roedd llawer o gynorthwyyr addysgu wedi ymuno â'r cynllun gan fod arnynt eisiau mwy o gyfrifoldeb a'r cyfle i weithio'n fwy annibynnol gyda phlant:
- 'gall rhoi cymorth yn y dosbarth ddod ychydig yn sych ... maen nhw'n dod i gymryd perchnogaeth o'r dosbarth fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch.' (Prifathro, ysgol gynradd)
- 'Roedd arna' i eisiau gallu gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant, heb orfod cael [athro ystafell ddosbarth] yn ei arwain.' (Cynorthwyydd addysgu lefel uwch, ysgol gynradd)
- 4.43 Er bod tystiolaeth i awgrymu y gall rhai ysgolion fod yn cyflogi staff cymorth nad oes ganddynt statws cynorthwyydd addysgu lefel uwch mewn rôl o'r fath (nodwyd o leiaf un enghraifft o hyn yn y sampl ymchwil), yn y mwyafrif o achosion, roedd ysgolion yn y sampl yn gwneud statws cynorthwyydd addysgu lefel uwch yn ofynnol ar gyfer swydd lefel uwch. Mewn llawer o achosion, lle'r oedd swydd o'r fath wedi dod ar gael, y cyfle am ddyrchafu i fod yn gynorthwyydd addysgu lefel uwch a'r codiad cyflog cysylltiedig oedd y prif ysgogydd i gynorthwyydd addysgu ymuno â'r cynllun.
- 4.44 Roedd nifer o gynorthwyyr addysgu lefel uwch yn honni na fyddent wedi cymryd rhan yn y cynllun oni bai bod gwarant o swydd cynorthwyydd lefel uwch ar ei ddiwedd. Fodd bynnag, awgrymwyd bod rhai cynorthwyyr addysgu yn mynd am y statws hyd yn oed heb sicrwydd o swydd yn eu hysgol oherwydd bod arnynt eisiau gwella eu CV a gwella eu siawns o sicrhau rôl cynorthwyydd lefel uwch yn rhywle arall.
- 4.45 Dywedodd amryw o gynorthwyyr addysgu lefel uwch iddynt gymryd rhan yn y cynllun oherwydd bod arnynt eisiau gwybod mwy am addysgu cyn cychwyn gradd mewn addysgu neu Dystysgrif Addysg i Raddedigion.

- 4.46 Mewn achosion eraill, yn enwedig yn yr ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, roedd cynorthwywyr addysgu wedi gweld y cynllun fel llwybr at arbenigo mewn meysydd fel ieithoedd tramor, cymorth lleferydd ac iaith neu anghenion o ran cymorth emosiynol ac ymddygiadol.
- 4.47 Roedd rhai cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn dewis ymgeisio ar gyfer y cynllun oherwydd bod arnynt eisiau dangos ymrwymiad i'w rôl a/neu gynyddu eu sicrwydd swydd. Roedd prifathrawon yn aml yn disgrifio hyn fel ysgogydd tebygol i gynorthwywyr addysgu gymryd rhan; fodd bynnag, lle'r oedd cynorthwywyr addysgu wedi cyfeirio at hyn, roedd yn aml ar y cyd ag ysgogwyr eraill.
- 4.48 Gan fod angen i ymgeiswyr ddangos eu bod eisoes yn cyrraedd y safonau proffesiynol er mwyn ennill statws cynorthwydd addysgu lefel uwch, nid yw'n syndod i lawer ohonynt ddweud eu bod eisoes yn cyflawni tasgau cynorthwywyr addysgu lefel uwch cyn ennill y statws a chael eu dyrchafu'n swyddogol i swydd o'r fath. Felly, roeddent yn gweld y cynllun fel cyfle i ennill cydnabyddiaeth a thâl ariannol am y rôl roeddent eisoes yn ei chyflawni'n ymarferol: 'roedd yn ymwneud â chael fy nghydnabod am y swydd dw i'n ei gwneud mewn gwirionedd.'
(Cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol uwchradd)

Ysgogwyr i ysgolion

- 4.49 Y prif reswm roedd prifathrawon a rheolwyr yn annog ac yn cefnogi eu cynorthwywyr addysgu i gymryd rhan yn y cynllun oedd oherwydd ei fod yn cael ei weld fel ffordd o gydnabod a dilysu sgiliau a phriodweddau'r cynorthwydd addysgu. Yn gysylltiedig â hyn oedd y syniad bod ganddynt, wrth fuddsoddi yn eu staff cymorth mwyaf galluog, well siawns o'u cadw hwy yn yr ysgol. Dywedodd nifer o brifathrawon eu bod yn bryderus y gallai cynorthwydd addysgu da symud ymlaen i swydd yn talu'n well gyda mwy o gyfrifoldeb pe na baent yn cael cyfleoedd i gamu ymlaen: 'Ro'n i'n poeni am golli [cynorthwydd addysgu] ... ro'n i'n gweld y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch fel ffordd o'i hymestyn hi, a'i chadw hi yma gobeithio.' (Prifathro, ysgol gynradd)
- 4.50 Roedd y cyfle i leihau'r defnydd o athrawon cyflenwi yn ysgogydd pwysig i lawer o arweinwyr ysgolion cynradd gefnogi cynorthwydd addysgu i ennill statws lefel uwch, gan y byddai ganddynt wedyn y cymwysterau i gymryd dosbarthiadau pan fo

athrawon yn absennol: 'rydym yn cael llawer o salwch a straen yma ... mae'r ddau gynorthwydd addysgu lefel uwch yn fendith gan eu bod yn gallu cymryd cynllun gwers a'i chyflwyno ... maen nhw'n adnabod y plant, maen nhw'n adnabod yr athro.' (Prifathro, ysgol gynradd). Roedd hyn yn cael ei weld fel ffactor pwysig wrth helpu sicrhau parhad i'r disgyblion – gan fod y cynorthwydd lefel uwch yn gyfarwydd iddynt – ac yn arbed y gost a'r baich gweinyddol o chwilio a thalu am athrawon cyflenwi.

- 4.51 Roedd un prifathro wedi colli athro ac wedi penderfynu annog cynorthwydd addysgu i fynd am statws Lefel Uwch fel y gallai wedyn gymryd dosbarth derbyn: 'mae cael cynorthwydd addysgu lefel uwch yn cymryd y pwysau oddi arnom i orfod cael swydd athro arall.' (Prifathro ysgol gynradd)
- 4.52 Roedd amryw o arweinwyr ysgol yn cyfeirio at ddiffyg cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus eraill i gynorthwywyr addysgu (heblaw mewn meysydd arbenigol iawn) ac felly roeddent yn awyddus i'w helpu i gyrraedd statws lefel uwch. Mae'r ysgogydd hwn yn dangos diffyg ymwybyddiaeth ar ran rhai prifathrawon mai proses o asesu ac achredu sgiliau a safonau presennol yw'r cynllun, ac nid rhaglen ddatblygu.

Rhwystrau rhag cymryd rhan yn y cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

Rhwystrau i gynorthwywyr addysgu

- 4.53 Y prif reswm a roddir pam na fyddai cynorthwywyr addysgu yn cymryd rhan yn y cynllun cynorthwywyr lefel uwch, neu'n dewis peidio, yw diffyg swyddi lefel uwch ar gael. Dywedodd un cynorthwydd addysgu mai dim ond dwy swydd lefel uwch a welodd yn cael ei hysbysebu yn ei hawdurdod lleol yn y ddwy flynedd flaenorol a chan nad oedd dim siawns o swydd yn dod yn ei hysgol hi, ni welai fawr o bwynt mewn mynd ar ôl y cynllun: 'mae'n llawer o waith os nad oes swydd ar ei ddiwedd.' (Cynorthwydd addysgu, ysgol gynradd)
- 4.54 Roedd prifathrawon yn ymwybodol iawn o'r anghymelliad hwn, a theimlai rhai ei bod yn anfoesol annog cynorthwywyr addysgu i gymryd rhan yn y cynllun os nad oedd ganddynt gyfleoedd dyrchafiad: 'os nad oes gwobr amlwg ar ei ddiwedd, pam maen nhw'n mynd i'w wneud?' (Prifathro, ysgol gynradd)

- 4.55 Er bod y mwyafrif o gynorthwywyr addysgu a gynhwyswyd yn yr ymchwil hwn yn gwybod am y cynllun (yn ddealladwy efallai gan fod o leiaf un o'u cydweithwyr wedi bod trwyddo), rhoddodd rhanddeiliaid nifer o resymau pam y gallai cynorthwywyr addysgu eraill fod yn llai tebygol o gymryd rhan yn y cynllun. Awgrymwyd bod diffyg ymwybyddiaeth o'r cynllun yn debygol o rwystro rhai cynorthwywyr addysgu rhag cymryd rhan yn y cynllun yn yr ysgolion hynny lle nad oedd unrhyw gynorthwywyr addysgu wedi bod trwy'r cynllun. Yn yr un modd, i'r rheini a all fod yn gwybod am y cynllun yn gyffredinol ond nad ydynt yn cael gwybod pa bryd mae'r dyddiau gwybodaeth cychwynnol yn digwydd, oherwydd nad yw'r wybodaeth wedi eu cyrraedd, ni fyddent mewn sefyllfa i gymryd rhan.
- 4.56 I lawer o gynorthwywyr addysgu a gyfwelwyd, un rheswm allweddol dros osgoi'r cynllun oedd nad oedd arnynt eisiau cymryd y cyfrifoldebau a'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n dod gyda bod yn gynorthwydd lefel uwch. Er bod rhai prifathrawon yn cyflwyno hyn fel diffyg uchelgais, mewn llawer o achosion roedd rhesymau dilys pam fod cynorthwywyr addysgu'n teimlo fel hyn:
- 'mae'r cynorthwywyr addysg yn gweld unwaith eich bod yn un lefel uwch eich bod yn cael llawer iawn o waith wedi'i bentyrru arnoch chi.' (Cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol uwchradd)
- 'Roedd llawer o gynorthwywyr addysgu lefel uwch yn teimlo mai'r cyfan oedd eu swydd oedd y llywodraeth yn rhy grintachlyd i wario ar fwy o athrawon.' (Cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol gynradd)
- 'Dw i'n hapus gwneud yr hyn dw i'n ei wneud nawr ... does gen i ddim eisiau'r gwaith ychwanegol o gynllunio ac asesu.' (Cynorthwydd addysgu, ysgol gynradd)
- 4.57 Mae canfyddiad ymhlith cynorthwywyr addysgu nad yw'r cynnig mewn incwm yn gymesur â'r hyn sy'n cael ei weld fel cynnydd sylweddol mewn cyfrifoldeb yn y rôl lefel uwch, a'r farn oedd bod hyn yn ffactor sy'n llesteirio'r cynllun yn sylweddol. Cymhlethir hyn ymhellach gan y diffyg strwythur tâl safonol i staff cymorth ar draws Cymru: 'gallwch weld pam fod rhai cynorthwywyr addysgu yn colli diddordeb yn y cynllun os yw'r tâl yn anghyson yn y diwedd.' (Asesydd cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch)

- 4.58 Rhwystr arall a nodwyd oedd y farn y gallai fod diffyg cyfle i gyrraedd safon 33²⁶, a oedd yn neilltuol o gyffredin mewn ysgolion uwchradd. Teimlai amryw o arweinwyr ysgolion uwchradd ei bod yn amhriodol i aelod o'r staff cymorth gymryd dosbarth cyfan ac awgrymodd y byddai unrhyw gynorthwywyr addysgu a oedd wedi ennill y statws yn y sector uwchradd wedi defnyddio tystiolaeth o weithio gyda grwpiau bach o blant – er enghraifft i gyflwyno cymorth llythrennedd a rhifedd – i gyrraedd safon 33. Mae i hyn y potensial o fethu â chyrraedd y meini prawf a nodir yn y canllawiau; er na chyfeirir at nifer penodol o ddisgyblion wrth ddiffinio 'dosbarth cyfan', y diffiniad o ddosbarth cyfan yw 'yr hyn a fyddai'n cael ei amserlennu'n arferol ar gyfer y wers honno'.²⁷
- 4.59 Canfuwyd bod y gwaith mae cynhyrchu'r portffolio yn ei olygu a gofynion sylfaenol amlygu'r elfennau o dystiolaeth yn rhwystr sylweddol, yn enwedig i'r rheini nad oedd wedi cael profiad cadarnhaol o addysg ac a oedd â lefelau isel o hyder yn eu sgiliau ysgrifenedig.
- 4.60 Roedd rhanddeiliaid wedi awgrymu y byddai'r rheidrwydd i gael isafswm o gymhwyster Lefel 2 mewn llythrennedd a rhifedd yn rhwystr i rai gynorthwywyr addysgu gael mynediad i'r cynllun. Yn ystod y gwaith maes nid oedd hyn yn anhawster y cyfeiriwyd yn helaeth ato. Yn ogystal, roedd un neu ddau o brifathrawon yn teimlo os oedd unrhyw gynorthwydd addysgu nad oedd â'r cymhwyster angenrheidiol hwn ac nad oedd arno ef neu hi eisiau ceisio eu cyrraedd, y byddai'n anaddas ar gyfer y rôl lefel uwch p'run bynnag.
- 4.61 Roedd nifer o rwystrau eraill na chafodd eu crybwyll yn aml yn cynnwys:
- Penderfyniad i arbenigo mewn meysydd eraill (er enghraifft Cymorth Llythrennedd Emosiynol, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Iaith Arwyddion Prydain).
 - Anghymhelliad o raddfa tâl ychydig bach yn uwch a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar fudd-daliadau.

²⁶ Gweithio ymlaen llaw wrth weithio gyda dosbarthiadau cyfain heb bresenoldeb yr athro a neilltuwyd

²⁷ Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Ymgeiswyr Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (Cymru) 2015 Ennill Statws Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch, Rhifyn Medi 2015, t.9

- Barn y cynorthwywyr addysgu rheini sydd â statws athro cymwysedig, ac i'r rheini mae'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn ymddangos yn amherthnasol²⁸.
- Dadrithiad gyda gwerth datblygiad proffesiynol yn gyffredinol.

Rhwystrau i ysgolion

- 4.62 I lawer o brifathrawon, y prif rwystr i gefnogi cynorthwydd addysgu trwy'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch yw'r diffyg cyllideb i gynnig swydd lefel uwch iddynt ar y diwedd. Awgrymwyd bod annog cynorthwydd addysgu i gyrraedd y statws â'r risg o godi gobeithion yn ofer. O ganlyniad, yr unig adeg roedd rhai ysgolion yn annog unigolion oedd pan fyddai cyfle yn ymddangos am swydd lefel uwch o fewn strwythur staffio'r ysgol.
- 4.63 Ymysg bron bawb o fewn y sector ysgolion cynradd, y prifathro oedd yn cael ei weld fel y prif ysgogydd i gymryd rhan yn y cynllun. Roedd prifathro nad oedd yn cytuno â'r broses, neu'n anfodlon ei hyrwyddo, yn cael ei weld fel rhwystr sylweddol i ysgolion (ac felly staff cymorth) rhag cymryd rhan yn y cynllun.
- 4.64 Nodwyd nifer o resymau logistaidd posibl pam nad yw prifathrawon yn cymryd rhan yn y cynllun, gan gynnwys diffyg amser (eu hamser eu hunain ac amser y cynorthwydd addysgu) i fynd i'r sesiwn wybodaeth, pryderon ynghylch costau cyflenwi i alluogi cynorthwywyr addysgu i fynd i'r sesiynau briffio a diffyg gwybodaeth fanwl o allu'r cynorthwydd i gyrraedd y safonau proffesiynol.
- 4.65 Mewn nifer bach o achosion awgrymwyd y gallai prifathro, mewn ysgolion lle nad oedd unrhyw ragolygon o gynnig swydd cynorthwydd addysgu lefel uwch yn y dyfodol agos, fod yn annhebygol o gefnogi cynorthwydd addysgu i fynd ar y cynllun, oherwydd y risg y gallai adael yr ysgol am gyfleoedd lefel uwch mewn lleoedd eraill. Ni wnaeth unrhyw brifathro ddatgelu hyn fel rhwystr iddynt hwy yn bersonol, yn hytrach awgrymwyd ei fod yn rhwystr posibl yn gyffredinol gan rhanddeiliaid ysgol (gan gynnwys dau brifathro) a rhanddeiliaid y tu allan i ysgolion.

Y broses o benderfynu ynghylch cymryd rhan

²⁸ Roedd cynorthwywyr addysgu oedd â statws athrawon cymwysedig yn cyfeirio at lefelau is o gyfrifoldeb, cyfle i weithio un-i-un gyda disgyblion ac oriau gwaith byrrach fel y prif resymau pam nad oedd arnynt eisiau gweithio fel athro.

- 4.66 Prifathrawon oedd yn cael eu gweld yn arferol fel y 'porthor' o ran dylanwadu ar gyfranogiad cynorthwyrwyr addysgu yn y cynllun. Mae hyn yn deillio i raddau helaeth o'r ffaith nad oes unrhyw ffyrdd safonol y mae gwybodaeth am y cynllun yn cyrraedd cynorthwyrwyr addysgu heblaw trwy'r prifathro.
- 4.67 Dywedodd rhai prifathrawon eu bod, bob tro maent yn derbyn gwybodaeth am y cynllun, yn rhannu hyn gyda phawb o'r cynorthwyrwyr addysgu ac yn annog pawb a oedd yn awyddus i roi eu hunain ymlaen. Mae aseswyr wedi awgrymu bod hyn wedi arwain at geisiadau anaddas gan ymgeiswyr nad oedd yn cyrraedd y safonau proffesiynol.
- 4.68 Mewn achosion eraill, byddai prifathrawon (yn aml mewn ysgolion cynradd) a chydgyssylltwyr anghenon dysgu ychwanegol (yn fwy cyffredin mewn ysgolion uwchradd) yn mynd at gynorthwyrwyr addysgu unigol y teimlent eu bod yn addas. Er mai'r farn oedd y byddai hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddai cynorthwyrwyr addysgu a oedd yn ymgeisio am y cynllun yn cyrraedd y safonau proffesiynol, teimlai rhai cynorthwyrwyr fod hyn yn broses ddethol ac iddi'r risg o fagu drwgdeimlad ymhlith corff y staff cymorth.
- 4.69 Er i bawb o'r prifathrawon ddweud na fyddent yn dal unrhyw gynorthwydd addysgu yn ôl rhag cymryd rhan, dywedodd lleiafrif y byddent yn dewis peidio â throsglwyddo'r wybodaeth am y cynllun i'w cynorthwyrwyr pe baent yn gwybod nad oedd unrhyw ragolygon o swydd lefel uwch yn dod ar gael yn eu hysgol: 'Dw i ddim yn meddwl ei bod yn deg eu cael nhw i wneud yr holl waith yma os nad oes unrhyw siawns o swydd ar ei ddiwedd.' (Prifathro, ysgol gynradd). Fel y nodwyd eisoes uchod, roedd nifer o brifathrawon yn amau perthnasedd cymryd rhan yn y cynllun pan fo cyn lleied o gyfleoedd i weithio a cael eu talu ar lefel cynorthwydd lefel uwch.
- 4.70 Roedd lleiafrif o gynorthwyrwyr addysgu, yn gyffredinol mewn ysgolion uwchradd ac Arbennig, wedi mynd at y prifathro eu hunain, yn gofyn am gael cymryd rhan, ar ôl ymchwilio'r cynllun eu hunain.

Manteision cymryd rhan yn y Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

Manteision i gynorthwywyr addysgu

- 4.71 Bron yn ddieithriad, roedd rhanddeiliaid yn nodi dyrchafiad a mwy o dâl fel y prif fudd i gynorthwywyr addysgu o ennill statws lefel uwch, er bod hynny gyda'r cafeat nad yw ennill statws lefel uwch yn gwarantu y bydd cynorthwydd yn ennill swydd lefel uwch. Teimlai llawer o gynorthwywyr addysgu fod yn cynllun yn rhoi cydnabyddiaeth swyddogol o wybodaeth, sgiliau a phrofiad y cynorthwydd, ynghyd â gwell statws yn yr ysgol, yn enwedig lle mae ennill y statws yn arwain at newid mewn swydd.
- 4.72 Roedd bron bawb o'r cyfranogwyr, gan gynnwys y rheini nad oedd wedi cael eu dyrchafu'n uniongyrchol i swydd lefel uwch, yn haeru bod eu hyder wedi cynyddu o ganlyniad i gwblhau'r cynllun. Y farn oedd bod y teimlad o ganmoliaeth sy'n gysylltiedig â chael eu cefnogi gan yr ysgol i gymryd rhan yn y cynllun, a'r broses o gasglu'r dystiolaeth i ddangos cymhwysedd proffesiynol yn arwain at gynnydd mewn hunan barch: 'Ro'n i'n gwirioneddol werthfawrogi'r clod eu bod nhw wedi gofyn imi.' (Cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol gynradd)
- 4.73 Roedd rhai athrawon, a chynorthwywyr addysgu a oedd wedi bod drwy'r cynllun, yn teimlo bod y cynnydd hwn yn hyder yr ymgeiswyr wedi parhau yn y misoedd ar ôl cwblhau'r cynllun, wrth i'r cynorthwydd gymryd mwy o gyfrifoldeb a dod yn fwy hyfedrus: 'Mae hi [cynorthwydd addysgu lefel uwch sy'n cymrd dosbarth derbyn yn barhaol] yn gwneud popeth mae athro neu athrawes yn ei wneud ... mae hi wedi ennill cymaint o hyder ers gwneud y cwrs.' (Prifathro, ysgol gynradd)
- 4.74 Fel hyn gellir felly gweld y cynllun fel un sy'n hybu sgiliau meddalach a gellid ei ystyried fel catalydd ar gyfer cylch rhinweddol o gynyddu hyder a chymhwysedd.
- 4.75 Gall ennill statws cynorthwydd addysgu lefel uwch creu cyfleoedd arwain i gynorthwywyr addysgu gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau penodol gan gynnwys:
- bod yn rheolwyr llinell i gynorthwywyr addysgu eraill
 - arwain rolau rheoli absenoldeb a chydgyssylltu â rhieni
 - cyflwyno gwersi Cymraeg i bob dosbarth yn rheolaidd²⁹

²⁹ Roedd hyn mewn ysgol arbennig.

- rhedeg ymyraethau llythrennedd neu rifedd
- darparu cymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion unigol â phroblemau ymddygiad neu anawsterau dysgu cymedrol.

- 4.76 Yn y mwyafrif o achosion, roedd y rheini a oedd wedi cymryd y rolau ychwanegol hyn wedi cael eu dyrchafu'n ffurfiol i rôl cynorthwydd addysgu lefel uwch, dyrchafiad na fyddai wedi bod yn bosibl heb gyrraedd y statws hwnnw.
- 4.77 Mae'r cynllun hefyd yn cynnig cyfleoedd rhwydweithio amhrisiadwy i gynorthwywyr addysgu sydd, fel grŵp proffesiynol, yn cael ychydig iawn o gyfleoedd i adael yr ysgol a rhwydweithio a rhannu arferion da gyda chynorthwywyr addysgu eraill.

Manteision i ysgolion

- 4.78 I ysgolion, mae prif fanteision y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn ymwneud â chynllunio adnoddau a chyllid. Mewn termau ymarferol, roedd ysgolion yn dweud bod cael cynorthwywyr addysgu â statws lefel uwch (boed hwy mewn swydd lefel uwch neu beidio) yn gallu helpu timau o uwch-reolwyr drefnu cyflenwi ar gyfer absenoldebau athrawon – absenoldebau wedi eu cynllunio a rhai brys – yn fwy effeithlon ac yn rhatach: 'mae'r [statws cynorthwywyr addysgu lefel uwch] yn caniatáu mwy o hyblygrwydd dros strwythur staffio yn yr ysgol.' (Dirprwy brifathro, ysgol uwchradd). Mae'r cwestiwn a yw hyn yn ymateb priodol, neu'n ganlyniad i'w ddeisyfu o'r cynllun, neu beidio, yn rhywbeth y gall fod angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried ymhellach.
- 4.79 Yn benodol, nododd prifathrawon fod gael cynorthwywyr addysgu gyda statws lefel uwch yn lleihau'r angen i gyflogi athrawon cyflenwi (cymharol ddud) i gyflenwi absenoldebau tymor byr neu argyfwng sy'n anghyfarwydd â gweithdrefnau'r ysgol a'r disgyblion: 'mae fel cael athro arall yn yr ysgol.' (Athro, ysgol gynradd)
- 4.80 Roedd prifathrawon yn haeru eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio cynorthwywyr addysgu sydd â statws lefel uwch i gyflenwi dros athro absennol: 'gallwn sicrhau rhieni eu bod yn gynorthwywyr addysgu lefel uwch ... maen nhw'n fwy cymwysedig [sic] i gymryd dosbarth.' (Prifathro, ysgol gynradd)
- 4.81 Roedd rhai cynorthwywyr addysgu, yn enwedig y rheini nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn ennill statws lefel uwch, yn mynegi'r fantais hon yn fwy sinicaidd,

gan ddisgrifio'r cynllun fel cyfrwng i gael 'athrawon yn rhad'. Mae peryglon posibl yr arfer hon wedi eu hamlinellu isod.

- 4.82 Un arall o fanteision allweddol y cynllun i ysgolion yw'r cyfle mae'n ei gynnig ar gyfer datblygu staff, a all wella llesiant a chyfraddau cadw staff. Gall hyn yn ei dro wella enw da ysgol ymysg gweithwyr proffesiynol addysgu fel lle dymunol i weithio.
- 4.83 Fel yr amlinellwyd uchod, awgrymwyd bod cymryd rhan yn y cynllun yn cynyddu hyder a chymhwysedd cynorthwywyr addysgu; mae hyn yn ei dro yn eu galluogi hwy i gael mwy o effaith ar ddysgu disgyblion.
- 4.84 Yn olaf, fel mantais i ysgolion ar y cyd, awgrymwyd bod y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch wedi helpu proffesiynoli rôl y cynorthwydd addysgu, gan ei symud oddi wrth bod yn 'fyddin o famau' i roi mwy o gydnabyddiaeth o natur werthfawr y rôl, gyda mwy o botensial am gyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa. Wrth gynyddu ansawdd y gweithlu addysg, y farn oedd bod y cynllun hefyd wedi helpu cyflawni amcan 1 Cenhadaeth ein Cenedl³⁰.

Anfanteision cymryd rhan yn y Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch

Anfanteision i gynorthwywyr addysgu

- 4.85 Roedd y mwyafrif o'r rheini a oedd wedi bod drwy'r cynllun yn gallu nodi'r hyn roeddent yn ei ystyried fel anfanteision (o amrywiol raddau) o gymryd rhan yn y cynllun. Teimlai'r rheini a oedd wedi cyrraedd statws lefel uwch ei bod yn fwy tebygol y byddai gofyn ar iddynt gyflenwi dosbarthiadau yn annibynnol mewn achosion lle'r oedd yr athro dosbarth yn absennol: 'Dw i'n falch fy mod i wedi gwneud hyn, ond mae'n teimlo bron fel pe bawn yn athro ond heb y tâl' (Cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol gynradd).
- Roedd hyn i'w weld ymhlith y rheini oedd mewn swyddi cynorthwywyr addysgu lefel uwch a'r rheini a oedd yn dal i weithio fel cynorthwywyr addysgu.
- 4.86 I'r grŵp olaf, roedd hyn yn broblem, oherwydd teimlent fod gofyn ar iddynt wneud swydd fwy heriol, heb unrhyw dâl ychwanegol.
- 4.87 Dywedodd rhai cynorthwywyr addysgu lefel uwch bod cael cais i gymryd dosbarth ar fyr rybudd yn golygu canslo neu ohirio gweithgareddau neu ymrwymadau eraill

³⁰ <https://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf>

(er enghraifft, cymorth llythrennedd wedi'i dargedu), a gafodd ei ddisgrifio fel rhywbeth a oedd yn digalonni'r cynorthwydd addysgu lefel uwch a'r disgyblion y trefnwyd yn wreiddiol iddynt gael cymorth.

- 4.88 Yn ogystal, mae'r ymchwil yn awgrymu sefyllfaoedd yn codi lle bo cynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr addysgu lefel uwch yn gysylltiedig â dosbarth penodol ac yn gweithio gyda'r athro dosbarth, ac os oes gofyn iddynt gymryd y dosbarth yn absenoldeb yr athro, y gallant fod yn gwneud hyn heb gymorth ychwanegol: 'pan fo'r athrawes yma, hi a fi sydd yn yr ystafell ddosbarth, athro a chynorthwydd addysgu lefel uwch. Pan mae hi i ffwrdd, does neb ond fi ar fy mhen fy hun.' (Cynorthwydd addysgu lefel uwch, ysgol gynradd)
- 4.89 Mae hefyd broblem o ran cynorthwywyr addysgu heb fod yn cael hyfforddiant digonol yn rhai o'r sgiliau addysgu 'meddalach' sy'n mynd y tu hwnt i safonau proffesiynol y cynorthwywyr addysgu lefel uwch ond sy'n hanfodol ar gyfer cyflwyno gwers yn llwyddiannus. Roedd amryw o gynorthwywyr addysgu yn cyfeirio at reoli ymddygiad fel enghraifft o rywbeth roeddent yn ei ganfod yn heriol ond nad oedd yn cael ei ystyried o fewn cwrdd y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch.
- 4.90 Roedd llawer o'r rheini a oedd wedi bod trwy'r cynllun yn disgrifio cynnydd dramatig mewn cyfrifoldeb (gan gynnwys rhai o'r rolau hynny a restrir ym mharagraff 4.77 uchod) gyda dim ond yr hyn roeddent yn ei ystyried fel mymryn bach iawn o gynnydd mewn tâl. Teimlent nad oedd y cynnydd hwn yn cyfateb â'r cynnydd mewn cyfrifoldeb.
- 4.91 Fe wnaeth yr ymchwil hefyd adnabod gwahaniaethau sylweddol (hyd yn oed o fewn yr un ysgol) yn y rolau a'r cyfrifoldebau a roddir i'r rheini â statws cynorthwywyr addysgu lefel uwch. Er nad yw hyn yn broblem bob amser o angenrheidrwydd, mae'n creu drwgdeimlad lle bo anghysondebau mawr yn y cyfanswm llwyth gwaith a osodir ar unigolion. Mewn un ysgol gynradd er enghraifft, roedd cynorthwydd lefel uwch yn cymryd y dosbarth meithrin yn rheolaidd, yn gweithio dyddiau hyd at naw-awr, penwythnosau a gwyliau ysgol, tra bod ei chydweithiwr yn cyflwyno ymyraethau llythrennedd wedi'u targedu ac nad oedd mewn gwaith ond am ychydig hirach nag oriau ysgol. Roedd y ddwy'n cael eu cyflogi ar yr un lefel³¹.

³¹ Noder: nid oedd yr ymchwil yn archwilio lefelau tâl cynorthwywyr addysgu lefel uwch, fodd bynnag, dywedodd y ddau gynorthwydd lefel uwch hyn eu bod yn cael eu cyflogi ar Lefel 4.

- 4.92 Er nad yw hyn yn anfantais uniongyrchol, teimlai rhai cynorthwyyr addysgu lefel uwch fod caffael y statws yn cynrychioli nenfwd yn eu datbygiad proffesiynol, ac nad oedd fawr o botensial am gynnydd y tu hwnt i'r lefel hon.

Anfanteision i ysgolion

- 4.93 Un o'r prif bryderon a godwyd am y cynllun cynorthwyyr addysgu lefel uwch oedd ei fod mewn perygl o ddibrisio'r proffesiwn addysgu fel galwedigaeth gyfan gwbl raddedig trwy bylu'r llinellau rhwng athrawon a gweithwyr cymorth. Er bod rhai rhanddeiliaid yn disgrifio hyn fel 'gwarchodaeth broffesiynol', teimlai eraill yn gryf ei fod yn bryder dilys a bod angen mwy o eglurder ynghylch beth y gall ac na all cynorthwyyr addysgu lefel uwch ei wneud:
- ‘os [yw'r cynllun] wedi pylu'r ffiniau ... nid yw cynorthwyyr addysgu lefel uwch yn athrawon cymwysedig a dylent gyflawni swyddogaeth wahanol yn yr ysgol.’
(Cydgysylltydd anghenion addysgol arbennig, ysgol uwchradd)
- ‘Fel athro, mae rhan ohonof i'n poeni ei fod [cynllun a statws cynorthwyyr addysgu lefel uwch] yn cymryd gwaith oddi wrth athrawon ... gynt roedd athro cymwysedig yn cyflenwi ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, a gafodd ei wneud yn ddi-waith.’ (Athro, ysgol gynradd)
- 4.94 Awgrymwyd hefyd fod y cynllun, trwy alluogi cynorthwyyr addysgu i ennill statws lefel uwch, wedi creu strwythur dwy haen ymysg staff cymorth. Mewn nifer o ysgolion, lle'r oedd cyfran o'r cynorthwyyr addysgu wedi bod drwy'r cynllun, roedd wedi arwain at gynorthwyyr addysgu eraill yn teimlo'u bod yn cael eu hymyleiddio a'u tanbrizio.
- 4.95 Teimlai amryw o brifathrawon a nifer o gynorthwyyr addysgu lefel uwch fod defnyddio cynorthwyyr lefel uwch heb ddim neu fawr ddim mwy o gyflog yn gallu creu neu waethygu diwylliant o gamfanteisio mewn ysgolion, yn enwedig lle mae arbedion gweladwy mewn costau, o ran osgoi'r angen i dalu athrawon cyflenwi.
- 4.96 Mae'r ddau bwynt uchod yn werth eu nodi a dylent fod yn achos pryder i ysgolion, llywodraethwyr a gwneuthurwyr polisi. Mewn mwy nag un ysgol, roedd ymchwilwyr yn sylwi ar is-gerrynt o ddrwgdeimlad ymysg athrawon, cynorthwyyr addysgu lefel uwch, a chynorthwyyr addysgu a oedd yn cysylltu'n ôl yn rhannol o leiaf â'r ffordd y cyflogir staff cymorth yn yr ysgol:

‘mae braidd yn amwys yma yn yr ystyr nad yw [athrawes dosbarth arall gyda chynorthwydd addysgu lefel uwch ynghlwm wrth ei dosbarth] ddim yn gwneud y cynllunio ar gyfer cyflenwi ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, ond dywedwyd wrtha’ i y dylen ni fod yn gwneud y cynllunio ar gyfer y cynorthwydd addysgu lefel uwch pan mae hi’n cyflenwi ar gyfer ein cynllunio, paratoi ac asesu ni ... mae’n aneglur iawn o ran yr hyn a ddisgwylir ar gyfer y cynorthwydd lefel uwch ac mae [un cynorthwydd lefel uwch yn yr ysgol] yn gwneud llawer lawn mwy o waith na [cynorthwydd lefel uwch arall yn yr ysgol] oherwydd ei bod yn fwy cymwys ac ymroddgar, ond maen nhw i gyd yn cael yr un tâl.’ (Athro, ysgol gynradd)

Enghreifftiau o’r arferion gorau

- 4.97 Roedd un ysgol Arbennig yn ddiweddar wedi bod trwy newid sylweddol yn y strwythur staffio. Ar ôl y newid hwn neilltuwyd cynorthwydd addysgu lefel uwch penodol i bob dosbarth yn yr ysgol. Dywedodd y staff fod hyn wedi sicrhau bod y disgyblion, a oedd ag anghenion cymhleth, yn gyfarwydd â’r cynorthwydd addysgu lefel uwch a allai hefyd gynllunio ochr yn ochr â’r athro er mwy sicrhau parhad a chynnydd disgyblion. Ers i’r newid hwn gael ei fabwysiadu, roedd dosbarthiadau’n cael eu gweld fel rhai llawer mwy sefydlog pan fo’r athro rheolaidd yn absennol, tra bod yr cynorthwydd lefel uwch yn gallu cynnig cymorth wedi’i dargedu i unigolion a grwpiau bach pan fo’r athro’n bresennol.
- 4.98 Yn un o ysgolion yr astudiaethau achos, roedd cynorthwydd addysgu lefel uwch gyda phrofiad o waith coed a gwaith saer yn gallu gweithio un-i-un gyda disgybl a oedd wedi treulio cyn lleied â phosibl o amser yn yr ysgol o’r blaen ac wedi gwrthsefyll cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd dysgu yn yr ysgol. Dechreuodd y cynorthwydd lefel uwch trwy ‘uwchgylchu’³² hen gadair, a wnaeth ennyn diddordeb y disgybl, ac fe wnaethant symud ymlaen wedi at eitemau eraill o gelfi, gan ddatblygu sgiliau creadigol y disgybl. Mewn mater o wythnosau, roedd y cynorthwydd lefel uwch wedi cyflwyno elfen o rifedd i’r gweithgaredd, gan weithio gyda’r disgybl i gyfrifo costau deunyddiau. Dechreuodd y disgybl gymryd llawer

³² Uwchgylchu, a elwir hefyd yn aildddefnyddio creadigol, yw’r broses o drawsnewid sgil-gynhyrchion, deunyddiau gwastraff, cynhyrchion diwerth neu nad oes ar neb eu heisiau, yn ddeunyddiau newydd neu gynhyrchion o ansawdd gwell neu o well gwerth amgylcheddol.

mwyr o ddiddordeb mewn dysgu yn gyffredinol ac fe wnaeth ymarferwyr addysgu eraill sylwi ar welliant wrth i'r disgybl gael gwell cyfradd o bresenoldeb a chymryd mwyr o ddiddordeb mewn gwrsi.

- 4.99 Mewn un ysgol gynradd, roedd y prifathro wedi ymgorffori safonau proffesiynol cynorthwywyr addysgu lefel uwch mewn adolygiadau rheoli perfformiad i bawb o'r cynorthwywyr addysgu fel mecanwaith ar gyfer gosod targedau a chamu ymlaen, a oedd yn helpu i adnabod ymgeiswyr a allai fod yn addas. Awgrymwyd bod hyn yn ei gwneud yn fwy o broses benderfynu ar y cyd i ymgeisio, gan fod y cynorthwywyr addysgu wedi chwarae rhan uniongyrchol wrth hunan-asesu eu perfformiad eu hunain yn erbyn y safonau.

5. Casgliadau

- 5.1 Aeth y prosiect ymchwil hwn ati i ddeall pam fod cynorthwywyr addysgu yn cymryd rhan (neu beidio) yn y cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch, o amrywiaeth o wahanol safbwyntiau. Er bod ymwybyddiaeth o'r cynllun yn gymharol helaeth, mae'r nifer sy'n ei ddilyn yn llawer mwy amrywiol ac mae llawer o ysgolion ledled Cymru nad ydynt wedi cefnogi unrhyw gynorthwywyr addysgu trwy'r cynllun dros y blynyddoedd diwethaf.
- 5.2 Hanfod apêl y cynllun yw'r cyfle mae'n ei roi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i gamu ymlaen mewn gyrfa, a'r amrywiol fanteision cysylltiedig â hynny o safbwynt mwy o dâl, hyder a hunan barch, mwy o gyfrifoldeb ac ymreolaeth a theimlad o gyflawniad personol.
- 5.3 Er bod yr atyniadau hyn yn rhai rhagweladwy i raddau helaeth, mae'n amlwg o'r ymchwil hwn nad yw'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn rhywbeth y byddai pob cynorthwydd addysgu yn ei ystyried byth. Mae llawer o resymau pam nad yw cynorthwywyr addysgu yn cymryd rhan yn y cynllun, sydd i'w gweld ar lefel unigolyn, ysgol a sector.
- 5.4 Gallai rhai o'r rhwystrau hyn i gymryd rhan gael eu goresgyn yn gymharol hawdd trwy ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru neu gonsortia rhanbarthol, er enghraifft yr anghysondeb mewn ymwybyddiaeth o'r cynllun a phroblemau logistaidd wrth fynd i'r digwyddiadau briffio.
- 5.5 Gallai rhwystrau eraill fodd bynnag fod yn fwy anodd mynd i'r afael â hwy, er enghraifft y lefelau isel o uchelgais a dyheadau ymysg rhai o weithlu'r cynorthwywyr addysgu a'r angen i gael cyfle i gyrraedd pob un o safonau proffesiynol y cynorthwywyr addysgu lefel uwch.
- 5.6 Yn ogystal, mae rhai o'r rhwystrau a allai fod yn amhosibl eu goresgyn a dylid eu cydnabod felly. Ni fydd pob cynorthwydd addysgu yn gallu, ac yn wir ni fydd ar bob un eisiau, cymryd cyfrifoldebau ychwanegol nac oriau gweithio hirach sy'n cael eu gweld fel rhywbeth cysylltiedig â bod yn gynorthwydd addysgu lefel uwch. Yn ogystal, mae terfyn i'r nifer o swyddi cynorthwywyr lefel uwch y gellir eu cynnwys mewn ysgolion heb ail-strwythuro'r gweithlu addysg yn sylweddol. Er mai ychydig o randdeiliaid oedd yn amau gwerth datblygu proffesiynol fel nod ynddo'i hun, roedd

llawer yn gofyn beth oedd gwerth buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol yn y portffolio heb unrhyw debygolrwydd o ddyrchafiad.

- 5.7 Roedd rhanddeiliaid yn ei chael yn anodd gwahaniaethu rhwng manteision y cynllun ei hun a gwerth rôl cynorthwyyr addysgu lefel uwch. Mae perygl er hynny mewn cymysgu rhwng statws a swydd cynorthwyydd lefel uwch, gan nad yw'r ddau yn union yr un peth.
- 5.8 Hanfod y cwestiwn hwn yw'r diffyg eglurder ynghylch beth mae'n ei olygu i fod yn gynorthwyydd addysg lefel uwch, pa gyfrifoldebau y gellir eu gosod ar gynorthwyyr lefel uwch, faint y dylid eu talu ac a yw cyrraedd statws lefel uwch yn rheidrwydd er mwyn cael swydd lefel uwch. Er bod rhoi hyblygrwydd i ysgolion mewn sut maent yn defnyddio cynorthwyyr lefel uwch yn galluogi rhywfaint o weithgareddau arloesol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn enwedig mewn Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, mae'r amwysedd hwn hefyd yn creu cyfleoedd am gamfanteisio ac mae'n creu drwgdeimlad.
- 5.9 Y prif gasgliad y deuir iddo o'r ymchwil yw bod y cynllun yn amlwg yn cael ei werthfawrogi ar draws y sector a'i fod yn haeddu cefnogaeth barhaus. Fodd bynnag, mae angen meddwl mwy ynghylch pa gyfran o'r gweithlu cynorthwyyr addysgu y dylid yn realistig ddisgwyl iddynt fynd trwy'r cynllun a sut mae'r cynllun yn gysylltiedig â swydd cynorthwyydd addysgu lefel uwch. Mae llawer o'r argymhellion canlynol yn dod yn uniongyrchol gan randdeiliaid, tra bod eraill yn seiliedig ar farnau gwrthrychol yr ymchwilwyr.

6. Argymhellion

- 6.1 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y sail resymegol dros gynyddu'r niferoedd targed sy'n mynd drwy'r cynllun a gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i adnabod lefel realistig o alw am gynorthwywyr addysgu lefel uwch.
- 6.2 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a phrifathrawon i gytuno ar ddull addas a chyson o ddefnyddio cynorthwywyr addysgu lefel uwch yng Nghymru, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau disgwyledig a chyfleoedd posibl yn y dyfodol i gamu ymlaen mewn gyrfa.
- 6.3 Dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol egluro cyfrifoldeb pwy yw hyrwyddo'r cynllun, ac yn sgil hynny, gwella cyfathrebu, er enghraifft datblygu taflenni i'w dosbarthu mewn ysgolion, hwyluso cynllun 'llysgennad' cynorthwywyr addysgu lefel uwch mewn ysgolion a hysbysebu'r cynllun ar Hwb.
- 6.4 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gwahanol gategorïau o statws cynorthwywyr addysgu lefel uwch, er enghraifft, cynradd/uwchradd neu anghenion arbennig penodol, i ddiwallu gwahanol anghenion a diddordebau darpar ymgeiswyr.
- 6.5 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno lefelau dilyniannol i gynorthwywyr addysgu lefel uwch er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyfleoedd sydd ar hyn o bryd i gamu ymlaen ar ôl ennill statws cynorthwydd addysgu lefel uwch.
- 6.6 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio manteision cymharol datblygu'r cynllun cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn gymhwyster achrededig.
- 6.7 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno elfen a addysgir (er enghraifft ar sgiliau megis rheoli ymddygiad, theori addysgegol) i'r cynllun.
- 6.8 Yn dilyn cyhoeddi'r safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu ym Mehefin 2018 a'r ymgynghoriad cyhoeddus dilynol, dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol ddarparu canllawiau mwy manwl ar y cynllun i ddarpar ymgeiswyr. Yn benodol, dylent roi eglurder ar gychwyn y cynllun ynghylch disgwyliadau ar gyfer cyrraedd pob safon a graddau'r manylder sy'n ofynnol yn y dystiolaeth. Dylent hefyd ddatblygu rhywfaint o ddeunyddiau portffolio enghreifftiol.
- 6.9 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno arsylwadau ystafell ddosbarth i'r broses asesu, er mwyn sicrhau cydymffurfio â Safon 33.

- 6.10 Dylai pob consortiwm rhanbarthol sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg wrth weithredu'r cynllun. Byddai'r dyddiau briffio yn enwedig yn elwa o gymorth ychwanegol i gyfranogwyr Cymraeg eu hiaith mewn ardaloedd sy'n rhai cyfrwng Saesneg yn bennaf ac i gyfranogwyr Saesneg eu hiaith mewn ardaloedd sy'n rhai cyfrwng Cymraeg yn bennaf.
- 6.11 Dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol weithio gydag ysgolion ac unigolion i ddatblygu lefel addas o safoni rôl y cynorthwywyr addysgu lefel uwch a beth mae'n ei olygu i gael y statws.

7. Atodiad 1: Canllawiau pwnc

Canllawiau pwnc ar gyfer cyfweiliadau â rhanddeiliaid

Mae Miller Research a CM International wedi cael eu penodi i gynnal ymchwil i ffactorau sy'n dylanwadu ar y niferoedd o gynorthwywyr addysgu sy'n manteisio ar y Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch mewn ysgolion yng Nghymru. Bwriedir y canllawiau pwnc hyn i'w defnyddio ar gyfer cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'r gwaith cwrmpasu ar gyfer yr ymchwil.

Cyfrinachedd:

Dylech sicrhau'r sawl a gyfwelir y bydd unrhyw beth a ddywedir yn ystod y cyfweiliad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol ac y byddwn yn adrodd ar faterion a themâu cyffredinol yn unig. Lle defnyddir dyfyniadau uniongyrchol, byddant yn ddigon amwys i sicrhau na ellir eu priodoli i unrhyw un unigolyn, neu byddwn yn gofyn am ganiatâd i gael eu dyfynnu.

Gallwn eich sicrhau bod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau'r Gymdeithas Ymchwil Marchnad, sydd ar waith i hyrwyddo proffesiynoldeb mewn ymchwil marchnad, cymdeithasol a barn.

Y sawl a gyfwelir	
Rôl/sefydliad	
Amser/dyddiad	
Cyfwelydd	

Cefndir

1. Allwch chi amlinellu'n fyr eich rôl mewn perthynas â'r gweithlu addysgu ysgolion yng Nghymru?
